

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales@SeneddFinance
0300 200 6565

16 Mawrth 2022

Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) Cymru Drafft

Annwyl Rebecca

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Mawrth 2022, mewn perthynas â Bil arfaethedig Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) Cymru Drafft. Rwy'n siomedig nad ydych yn fodlon darparu unrhyw adnoddau cyfreithiol na pholisi pe bai'r Pwyllgor yn penderfynu cyflwyno'r Bil. Fel y gwyddoch, bu Pwyllgor Cyllid y Pumed Senedd yn trafod y mater hwn yn fanwl ac argymhellodd y dylid cyflwyno Bil cyn gynted â phosibl yn y Chweched Senedd.

Fy marn i yw bod yr achos dros ddeddfwriaeth yn parhau i fod yn gryf. Mae'r materion hyn yn dal i fod yn rhai brys ac ni ellir eu cyflawni heb ddiwygio'r ddeddfwriaeth bresennol, fel y mae eich swyddogion eich hun wedi cadarnhau.

Hoffwn felly ichi nodi safbwynt ffurfiol Llywodraeth Cymru ar bob un o gynigion y Bil drafft a chadarnhau'n bendant a ydych yn gefnogol i'r Pwyllgor gyflwyno'r Bil hwn. Os na, byddwn yn gwerthfawrogi rhagor o wybodaeth am sut yr ydych yn credu y dylid bwrw ymlaen â'r meysydd y mae'r Bil yn ceisio mynd i'r afael â hwy.

Fy nealltwriaeth i yw bod Archwilio Cymru yn dal i fod o blaid gwneud newidiadau drwy'r Bil arfaethedig hwn ac rwy'n parhau i fod yn gefnogol i'w gyflwyno cyhyd ag y bo modd cyfiawnhau'r angen am ddeddfwriaeth yn y maes hwn o hyd.

Byddwn yn croesawu eich gohebiaeth barhaus ar y mater hwn gyda golwg ar symud y mater yn ei flaen yn ystod y Chweched Senedd.

Yn gywir,



Peredur Owen Griffiths AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

We welcome correspondence in Welsh or English

